

## Taflen 3

# Gweithgaredd 1: Kindertransport a'r Plant a Ffodd i Gymru: Rhan 1 - Cefndir

## Mary Hochberg



*Mary Hochberg yn 1938.*

*Delwedd o gyfweiliad Mary Hochberg o archif USC Shoah Foundation – The Institute for Visual History and Education, 1997. Am ragor o wybodaeth: <http://sfi.usc.edu/>.*

Ganwyd Mary Hochberg yn Mary Auskerin ar 19 Ionawr 1925 yn Berlin, yr Almaen, i'w rhieni Ossip a Raina Auskerin. Dyn busnes oedd ei thad. Mae Mary'n disgrifio ei phlentynodod fel rhywbeth normal, ond roedd hi'n dod yn fwyfwy ymwybodol o wrthsemitiaeth a'r cyfreithiau gwrth-Iddewig a oedd yn ei gwahardd rhag gwneud y pethau normal a wnaeth unwaith. Yn fuan ar ôl hyn, anfonwyd Mary i Brydain Fawr ar y Kindertransport. Ar ôl cyrraedd Llundain, anfonwyd hi i Gastell Gwyrch, yn Abergele, gogledd Cymru, lle ymunodd â phlant Iddewig eraill a lle cyfarfu â'i darpar ŵr, Julius Hochberg. Symudasant i Lundain ym 1943 a phiodi ym mis Mawrth y flwyddyn honno. Aeth Mary i'r coleg a gweithiodd i labordy deintyddol a chwmmi cyfrifyddu. Wedi iddi raddio o'r coleg, daeth yn athrawes mewn ysgol Iddewig yn Llundain. Ym 1946, dysgodd am dynged ei rhieni. Roedd ei thad wedi cael ei alltudio i Auschwitz – Birkenau, lle tybir iddo gael ei lofruddio, ond goroesodd ei mam y rhyfel, er iddi farw yn fuan wedyn. Roedd gan Mary fab, a ddaeth yn fargyfreithiwr.

## Taflen 3

# Gweithgaredd 1: Kindertransport a'r Plant a Ffodd i Gymru: Rhan 1 - Cefndir

## Chastell Gwrych



*Castell Gwrych.*

*Delwedd o gyfweiliad Mary Hochberg o archif USC Shoah Foundation – The Institute for Visual History and Education, 1997. Am ragor o wybodaeth: <http://sfi.usc.edu/>.*

Rhwng 1939 a 1941, roedd Castell Gwrych yn Abergele, Sir Ddinbych, yn gartref i 200 o blant Iddewig a oedd wedi ffoi o Ewrop a oedd wedi'i feddiannu gan y Natsïaid. Defnyddiwyd y castell fel canolfan hyfforddi amaethyddol, a sefydlwyd gan sefydliadau Seionaidd, i baratoi pobl ifanc i ymfudo i Fandad Prydeinig Palesteina (Israel erbyn hyn). Roedd Ieuentid Aliyah a Bachad yn ddau o'r sefydliadau oedd yn noddi rhai o'r plant oedd yn aros yma. Yn dilyn erledigaeth y Natsïaid yn yr Almaen, crëwyd tua 20 o'r canolfannau hyfforddi hyn ledled Prydain Fawr a Chastell Gwrych oedd y mwyaf.

Cynigiwyd defnyddio'r castell am ddim gan y perchennog, yr Arglwydd Dundonald, gan ei fod mewn cyflwr gwael iawn. Roedd cyfleusterau'r castell yn gyfyngedig oherwydd bod y rhan fwyaf o'r ystafelloedd yn anaddas i fyw ynndynt. Roedd astudiaethau crefyddol a gwaith amaethyddol yn cadw'r plant yn brysur ond anogwyd chwaraeon, gweithgareddau awyr agored a digwyddiadau cymdeithasol hefyd.